

Gibraltar a'r Refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE

Caiff y ffordd y cynhelir y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE ei llywodraethu gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015.

Ein hamcanion ar gyfer y refferendwm yw:

- y dylai gael ei chynnal yn dda ac arwain at ganlyniadau a dderbynnir
- y dylai fod uniondeb a thryloywder o ran arian a gwariant ar ymgyrchu

Rydym yn annog cyfranogiad gweithredol gan ymgyrchwyr fel rhan o ddemocratiaeth iach. Yn ystod y cyfnod cyn y refferendwm, gall unigolion neu sefydliadau ymgyrchu dros ganlyniad penodol.

Bydd yr ymgyrchoedd hyn yn ddarostyngedig i reolau penodol ynglŷn â gwariant a rhoddion.

Mae'r rheolau yn gymwys i bob ymgyrchydd p'un a yw wedi'i leoli yn y DU neu Gibraltar. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y rheolau yn ein canllawiau: [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE.](#)

Os ydych yn ymgyrchydd wedi'i leoli yn Gibraltar neu'n ymgyrchydd wedi'i leoli yn y DU sy'n ymgyrchu yn Gibraltar, bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r ffordd y mae'r rheolau yn gymwys o dan yr amgylchiadau hyn. Mae'r daflen ffeithiau yn esbonio'r rheolau a dylai gael ei darllen ar y cyd â gweddill ein canllawiau.

Ymgyrchwyr wedi'u lleoli yn Gibraltar

Rhaid i chi beidio â gwario mwy na £10,000 yn ystod cyfnod y refferendwm, oni bai eich bod wedi cofrestru â ni i fod yn "ymgyrchydd cofrestredig".

Dim ond endidau penodol sydd wedi'u lleoli yn y DU a Gibraltar yn bennaf sy'n gymwys i gofrestru fel ymgyrchydd refferendwm sy'n bwriadu gwario mwy na £10,000 yn ystod cyfnod y refferendwm. Preswylwyr a sefydliadau Gibraltar sy'n gymwys i gofrestru yw:

- preswlydd unigol sydd wedi'i gofrestru yn Gibraltar neu sydd ar gofrestr etholwyr Gibraltar
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn Gibraltar ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- plaid wleidyddol yn Gibraltar (gweler rhagor o wybodaeth ar dudalen 3)
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y Gibraltar
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y Gibraltar
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn Gibraltar ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn Gibraltar ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn Gibraltar

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut i gofrestru yma:

[Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE.](#)

Pleidiau Gwleidyddol Gibraltar

Mae pleidiau gwleidyddol Gibraltar yn gymwys i gofrestru'n ymgyrchwyr yn y refferendwm:

- os ydynt ar restr Prydain Fawr o bleidiau gwleidyddol
- os bydd y blaid yn dod o dan un o'r endidau cymwys eraill, megis cymdeithas anghorfforedig, a ddisgrifir uchod

Ni all pleidiau gwleidyddol Gibraltar p'un a ydynt wedi'u cofrestru fel plaid wleidyddol neu fel endid cymwys gwahanol wneud rhoddion i bleidiau gwleidyddol eraill, na derbyn rhoddion gan bleidiau gwleidyddol. Os ydynt wedi'u cofrestru fel ymgyrchydd dim ond i'r ymgyrchwyr arweiniol dynodedig y gallant roi rhoddion. I gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau o roddion a ganiateir, gweler ein canllawiau: [Yr hyn a ganiateir i ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#).

Cofrestr Etholwyr

Mae gan ymgyrchwyr cofrestredig yn y refferendwm yr hawl i gael copïau o'r gofrestr etholwyr, gan gynnwys cofrestr Gibraltar. Mae cofrestr Gibraltar ar gael gan Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol rhanbarth etholiadol cyfun De-orllewin Lloegr ar gyfer etholiadau i Senedd Ewrop, a chaiff ei diweddarau'n fisol.

I gael copi o gofrestr etholwyr Gibraltar cysylltwch â:

Borough of Poole Council

Electoral Registration Officer Democratic Services
Civic Centre
Poole
Dorset
BH15 2RU
01202 633097
electoral.services@poole.gov.uk

Gallai unrhyw un y canfyddir ei fod wedi torri'r cyfyngiadau ar ddefnyddio'r gofrestr etholwyr wynebu dirwy o hyd at £5,000.

I gael rhagor o wybodaeth am gael y gofrestr etholwyr gweler:

- [Yr hyn a ganiateir mewn ymgyrch](#)

Cadarnhau a yw rhoddion a benthyciadau gan unigolion ac endidau yn Gibraltar yn rhai a ganiateir

Dim ond os ydynt yn dod o ffynonellau penodol a ganiateir, yn bennaf yn y DU a Gibraltar, y gellir derbyn rhoddion a threfnu benthyciadau. Cyn i ymgyrchydd refferendwm cofrestredig, neu sefydliad neu unigolyn sy'n bwriadu cofrestru'n ymgyrchydd, dderbyn unrhyw rodd gwerth mwy na £500 neu drefnu unrhyw fenthyciad gwerth mwy na £500, rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol i:

- sicrhau eu bod yn gwybod pwy yw'r gwir ffynhonnell
- cadarnhau bod y ffynhonnell yn un a ganiateir

Cânt 30 diwrnod i benderfynu p'un a ddylech dderbyn neu wrthod y rhodd a dychwelyd y rhodd os nad yw'r ffynhonnell yn un a ganiateir.

Dim ond hyd at werth terfyn gwariant eu plaid ar gyfer y refferendwm y gall pleidiau gwleidyddol cofrestredig yn y DU dderbyn rhoddion a threfnu benthyciadau â ffynonellau sydd wedi'u lleoli yn Gibraltar. Rhaid i chi gyfuno gwerth rhoddion a benthyciadau o'r ffynonellau hyn i gyfrifo cyfanswm eu gwerth. Os ydych yn derbyn rhoddion a/neu fenthyciadau o'r ffynonellau hyn a bod y cyfanswm cyfun yn fwy na'ch terfyn gwariant, byddwch yn torri'r rheolau a dylech gysylltu â ni ar unwaith.

Dengys y tabl ar dudalennau 6 ac 7 sut i gadarnhau a yw endidau penodol sydd wedi'u lleoli yn Gibraltar yn rhai a ganiateir.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein canllawiau: [Yr hyn a ganiateir i ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#).

Endid a Ganiateir	Sut i gadarnhau a ganiateir endid
Unigolyn sy'n etholwr yn Gibraltar	Edrychwch ar y gofrestr etholwyr yn Gibraltar Mae hon ar gael gan Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol rhanbarth etholiadol cyfun De-orllewin Lloegr ar gyfer etholiadau i Senedd Ewrop
Plaid wleidyddol yn Gibraltar a chofrestwyd yn y DU (dim ond ffynhonnell a ganiateir i ymgyrchwyr dynodedig ac anghofrestredig)	<ul style="list-style-type: none"> • Edrychwch yn y gofrestr o bleidiau gwleidyddol • Gwnewch yn siwr bod cofnod y blaid ar y gofrestr yn cynnwys y datganiad gofynnol. Y rhanbarth sy'n cynnwys Gibraltar ar hyn o bryd yw rhanbarth De-orllewin Lloegr
Cwmni sydd wedi'i gofrestru o dan y Ddeddf Cwmnïau ac sydd wedi'i gorffori yn Gibraltar, y DU neu yn un o aelod-wladwriaethau eraill yr UE, ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar	<ul style="list-style-type: none"> • Chwiliwch Tŷ Cwmnïau Gibraltar am gwmnïau sydd wedi'u corffori yn Gibraltar. Dylai datganiad cyfrifon diweddar nodi a yw'n cynnal busnes yn Gibraltar ai peidio • Chwiliwch GBR Direct am gwmnïau sydd wedi'u corffori yn yr UE. Dylai datganiad cyfrifon diweddar neu ddogfen debyg nodi a yw'n cynnal busnes yn Gibraltar ai peidio • Chwiliwch am y sefydliad ar-lein ac edrychwch ar ei wefan i asesu a yw'n cynnal busnes yn Gibraltar ai peidio
Undeb llafur o fewn ystyr Deddf Undebau Llafur ac Anghydfodau Gibraltar	<ul style="list-style-type: none"> • Chwiliwch am y sefydliad ar-lein ac edrychwch ar ei wefan i asesu a yw'n cynnal busnes yn Gibraltar ai peidio • Gofynnwch i'r undeb llafur roi copi o'i gofrestriad â'r Cofrestrydd Undebau Llafur (Gibraltar)

Endid a Ganiateir	Sut i gadarnhau a ganiateir endid
Cymdeithas adeiladu o fewn ystyr y Ddeddf Bancio (Estyniad i Gymdeithasau Adeiladu) (deddfwriaeth Gibraltar)	Nid yw'r endidau hyn yn bodoli mwyach oherwydd newid i'r deddfwriaeth berthnasol yn Gibraltar. Bydd unrhyw gymdeithas adeiladu sy'n dod o dan y diffiniad statudol berthnasol yn gwmni cyfyngedig (gweler rhes 3 uchod)
Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru o dan Ordinhad y Partneriaethau Cyfyngedig sy'n cynnal busnes yn Gibraltar	Chwiliwch Tŷ Cwmnïau Gibraltar am bartneriaethau sydd wedi'u corffori yn Gibraltar. Dylai datganiad cyfrifon diweddar neu gipolwg ar ei gwefan nodi a yw'n cynnal busnes yn Gibraltar ai peidio
Unrhyw gymdeithas anghorfforedig o ddau neu fwy o bersonau nad yw'n cyfrif fel unrhyw endid arall yn Gibraltar a ganiateir ond sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Gibraltar ac y mae ei phrif swyddfa yno	<ul style="list-style-type: none"> • Edrychwch ar yr holl gofrestrau uchod (Tŷ Cwmnïau Gibraltar, GBR Direct) er mwyn sicrhau nad yw'r gymdeithas anghorfforedig hefyd yn endid arall a ganiateir • Chwiliwch am y sefydliad ar-lein ac edrychwch ar ei gwefan i asesu a yw'n cynnal gweithgareddau'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Gibraltar • Edrychwch ar ei gwefan er mwyn sicrhau bod ei phrif swyddfa wedi'i rhestru fel cyfeiriad yn Gibraltar a chadarnhau bod y cyfeiriad hwn yn cyfateb i'r un a roddir ar ei hysbysiad

Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch neu e-bostiwch ni ar:

- Lloegr: 0333 103 1928
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk